

Buddion Lles Cymunedol

CYLCHLYTHYR IONAWR - MAWRTH 2025



**PRYNU'N
GYFRIFOL**

Tîm Caffael Cyngor Caerdydd

Croeso i'n diweddariad olaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddarparu buddion lles cymunedol, diolch i bawb sy'n cymryd rhan am eich ymroddiad a'ch gwaith caled. Y chwarter hwn, fe wnaethom groesawu dau unigolyn, Jemma Downes ac Erin Ryan-Phillips, i dîm Ardal. Bydd eu harbenigedd a'u brwdfrydedd yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion allweddol.

Fe wnaethom hefyd lansio THRIVE, ein system fonitro newydd ar gyfer Buddion Lles Cymunedol, a fydd yn ein helpu i fesur ein heffaith yn fwy effeithiol. Yn ogystal, fe wnaethom ddathlu Wythnos Menywod mewn Adeiladu ac Wythnos Prentisiaethau, gan dynnu sylw at waith rhagorol unigolion yn y sector a'r gymuned.

Wrth i ni orffen y flwyddyn ariannol hon, rwy'n gyffrous am yr hyn sydd gan y flwyddyn nesaf i'w chynnig. Gyda'n gilydd, rydyn ni wedi cyflawni cymaint, ac rwy'n hyderus y byddwn yn parhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol.



Y RHIFYN HWN

TUDALEN

Cyflawniadau BLIC ar gyfer y chwarter	2
Cyflwyno Thrive	3
Diweddariadau Ardal	4
Wythnos Prentisiaethau	7
Menywod mewn Adeiladu	8

Straeon Newyddion Da:

- Morgan Sindall	10
- Wates	13
- Lovell	15
- Kier	16
- Speller Metcalfe	18
- BESL	19
- WSP	21
- Willis	22

Cyflwyniad Caethwasiaeth Fodern	23
---------------------------------	----

Partneriaid :

- Academi Adeiladu Ar y Safle	24
- Addewid Caerdydd	26

Os ydych chi'n darparu Budd-daliadau Llesiant Cymunedol yn lleol ac eisiau cael eich cynnwys mewn cylchlythyr yn y dyfodol, anfonwch e-bost at cwb@cardiff.gov.uk. Mae tîm Budd-daliadau Llesiant Cymunedol (CWB) mor falch o'r holl waith sy'n digwydd yn lleol o amgylch darparu CBG/Gwerth Cymdeithasol. Isod mae'r ystadegau gyda rhai straeon dethol ar y tudalennau canlynol.



Prentisiaid
2835 wythnos



Cymorth Gyrfa
5973 awr



Cyflogaeth
40 swydd newydd



Hyfforddiant
1554 wythnos



Profiad gwaith
435 wythnos



Addysg
5151 awr



Gwirfoddoli
2770 awr



Oriau Arbenigol
2288 awr

Os ydych chi'n darparu CWB yn lleol ac eisiau cael eich cynnwys mewn cylchlythyr yn y dyfodol, e-bostiwch cwb@caerdydd.gov.uk

Dilynwch Ardal ar y cyfryngau cymdeithasol

Gwefan:



LinkedIn:



Mae caffael Ardal wedi dewis cipio, mesur ac adrodd ar ein prosiectau Buddion Lles Cymunedol (BLIC/ CWB) (Gwerth Cymdeithasol yn flaenorol) gyda Thrive. Bydd y bartneriaeth hon yn gyrru ein cyflwyniad BLIC ar draws y 4 awdurdod lleol hyd yn oed ymhellach. Mae hwn yn gyfle gwych i siapio cyflawniad BLIC o fewn y cymunedau sy'n elwa fwyaf. Gyda'r bartneriaeth newydd hon byddwn yn gallu darparu straeon newyddion cyfredol am brosiectau lleol sy'n cefnogi llwybrau cyflogaeth, ymgysylltu ag ysgolion, mentrau cymunedol a mwy.

Ydych chi'n gweithio ar brosiect Ardal sy'n gysylltiedig â Thrive?

Gall llywio cyflawniad BLIC gynnwys heriau unigryw ac felly mae cefnogaeth wedi ei deilwra i weithredu mesurau BLIC eich prosiect ar gael gan y tîm BLIC.

E-bost: cwb@caerdydd.gov.uk

Tagiwch @thriveplatform ar LinkedIn a chofiwch eu dilyn am ddiweddariadau cyfryngau a newyddion.

Jemma

Mae Cyngor Caerdydd yn falch o gyhoeddi sefydlu tîm Rheoli Fframwaith Cydweithredol newydd.

Bydd y tîm yn ymroddedig i reoli fframweithiau cydweithredol dan arweiniad y Cyngor, ledled Cymru ac ar sail Genedlaethol, gan gynnwys fframweithiau arobryn SEWSCAP, SEWTAPS a SEWH.

Mae Jemma Downes wedi'i phenodi'n ddiweddar fel Rheolwr Fframwaith, yn gyfrifol am arwain a chydlynu gweithgareddau fframwaith, a sicrhau rheolaeth effeithiol ar draws y fframweithiau cydweithredol. Mae'r rôl newydd hon yn hanfodol i wneud y mwyaf o gyfleoedd a chanlyniadau cadarnhaol i gleientiaid. Mae Jemma yn dod â chyfoeth o brofiad a chefnidir cryf mewn caffael yn y sector cyhoeddus.

Bydd y Tîm Fframwaith yn gwella ymgysylltiad contractwyr a chleientiaid, meithrin perthnasoedd cryf â chyflenwyr, ac yn hyrwyddo gwelliant parhaus. Edrychwn ymlaen at yr effaith gadarnhaol y bydd y tîm yn ei ychwanegu i'n trefniadau cydweithredol ar gyfer yr holl randdeiliaid.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau, ewch i wefan y fframwaith:
www.sewscap.co.uk
www.sewh.co.uk
www.sewtaps.co.uk



Erin

Mae'n bleser gennym gyflwyno Erin Ryan-Phillips, sydd wedi ymuno â Caffael Ardal fel ein Huwch Swyddog Strategaeth (Carbon) newydd.

Yn yr un modd â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, mae dros 70% o ôl troed carbon pob Cyngor sy'n rhan o Ardal yn ganlyniad i'r hyn a sut rydym yn caffael dros £1.2bn o nwyddau, gwasanaethau a gwaith bob blwyddyn. Bydd Erin yn arwain y gwaith i ddatgarboneiddio cadwyni cyflenwi Cyngorau Ardal i gefnogi nod pob Cyngor o fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Mae rhai o'r blaenoriaethau uniongyrchol y bydd Erin yn gweithio i fynd i'r afael â nhw yn cynnwys:

- Gwella cywirdeb y data allyriadau carbon a ddefnyddir i adrodd ar allyriadau'r gadwyn gyflenwi ar draws holl Gyngorau Ardal gan gynnwys adroddiadau penodol i gontractau.
- Arwain prosiectau cydweithredu gyda rhanddeiliaid allweddol ac arbenigwyr pwnc i ddatblygu opsiynau i fynd i'r afael â tendrau / contractau carbon uchel.
- Gweithio i hyrwyddo ac ymgorffori dewisiadau carbon isel ac egwyddorion economi gylchol ym mhob cyfle caffael, gan sicrhau bod caffael cynaliadwy yn cael ei ystyried ym mhob rhan o'r cylch bywyd caffael, yn enwedig ar y dechrau.
- Sicrhau ein bod yn cyfathrebu ein huchelgeisiau a'n llwyddiannau lleihau carbon yn effeithiol i sefydliadau sydd am weithio gyda Chynghorau Ardal.

Bydd y gwaith hwn, ynghyd ag ymdrechion datgarboneiddio gan gyflenwyr, yn helpu i yrru newid ystyrllon tuag at ddyfodol gwyrddach, mwy cynaliadwy i bob Cyngor Ardal a'u cadwyni cyflenwi. Mae'n agenda fawr a phwysig ac mae Erin yn edrych ymlaen at weithio gyda chi.





Agenda

- Ardal updates**
 - Thrive
- Reporting**
 - Newsletter
- Resources**
 - Task force
 - Employment support
 - Schools
- Checklist**

Bob chwarter mae'r tîm BLIC yn cynnal sesiwn wybodaeth. Mae hyn yn cwmpasu'r pwyntiau agenda uchod ac yn tynnu sylw at y gefnogaeth i gontractwyr gyflawni eu hymrwymadau BLIC yn lleol. Mae hwn yn fforwm gwybodaeth ddiweddaraf am brosesau Ardal a chodi cwestiynau

ynghylch cymorth cyflawni.

Os ydych chi ar brosiect Ardal ac yn dymuno bod yn rhan o'r digwyddiad nesaf (8 Gorffennaf) yna anfonwch e-bost at cwb@caerdydd.gov.uk



Yr Wythnos Brentisiaethau Genedlaethol hon, dyma Sam

Coughlin yn Hale Group Ltd
Safle: Stryd Bute, Caerdydd
Saer Lefel 2

"Mae'r math o dasgau rwy'n eu gwneud ar y safle yn cynnwys gosod yr holl baneli, drysau llithro, ac adeiladu balconïau Juliet. Mae un o'r isgontractwyr, sydd hefyd yn saer o'r enw Paul Powell, wedi bod yn fentor da iawn i mi, ac rwy'n mwynhau gweithio gydag e."

"Byddwn i'n argymhell prentisiaeth yn fawr oherwydd mae yna opsiynau a chyfleoedd diddiwedd ym mhobman, a fyddwch chi byth yn dioddef o ddiffyg gwaith."

Allwch chi helpu i adeiladu dyfodol yn y diwydiant adeiladu? Os ydych chi'n chwilio am brentisiaid, mae Ardal yn ymgorffori Buddion Llesiant Cymunedol mewn prosiectau o fewn y pedwar awdurdod lleol. I gael cymorth wedi'i deilwra yn ymwneud â phrentisiaethau (mesur NTW8 TOMs), cysylltwch â tîm BLIC yn cwb@caerdydd.gov.uk.



Mynychodd Caffael Ardal ddigwyddiad Cwrdd â'r Prynrwr a gynhaliwyd gan Gyngor Torfaen ar sut trwy gaffael y gallwn gefnogi busnesau bach a chanolig a chyflenwyr lleol drwy Ddeddf Gaffael newydd 2023.



Edrych ymlaen at gydweithio a gyrru effaith gadarnhaol yn y gymuned! #caffael #SME #buddionllescymunedol

Mae'n Wythnos Menywod mewn Adeiladu!

Rydym wrth ein bodd i dynnu sylw at bum menyw anhygoel sy'n chwalu rhwystrau ac yn adeiladu dyfodol yn y diwydiant adeiladu:



Chloe Mahoney – Syrfëwr Meintiau dan Hyfforddiant yn Lovell Partnerships Ltd

Mae Chloe yn rheoli costau, yn gweithio gydag isgontractwyr, ac yn cydweithio â thimau safle i wireddu prosiectau. Nawr yn nhrydedd flwyddyn ei phrentisiaeth, mae hi'n falch o helpu i adeiladu cymunedau fel Prosiect Byw yn y Gymuned Llaneirwg Cyngor Caerdydd.



Jessica Dix – Gweithredwr Safle yn CMB Engineering

Yn hyfforddi i fod yn oruchwylydd, mae Jessica yn ffynnu ar waith ymarferol, gosod pibellau ar gyfer gwresogi ac oeri mewn adeiladau domestig a masnachol. Ar ôl cwblhau ei hyfforddiant plymwaith, mae hi wedi dod o hyd i'w hangerdd mewn gyrfa sy'n llawn o dwf a dysgu.



Katie Morrison – Rheolwr Prosiect yn Kier Construction

Ar hyn o bryd mae Katie yn gweithio ar brosiect Ysgol y Court yn y Tyllgoed, a gaffaelwyd trwy fframwaith SEWSCAP. Mae hi'n goruchwyllo'r cynllun cyfan, o ddyluniad y rhaglen a hysbysebion prosiect, yn ogystal ag iechyd a diogelwch.



Esme French - Uwch Gydlynnydd Marchnata yn CMB Engineering

Mae rôl amrywiol Esme yn rhychwantu marchnata digidol, creu cynnwys, dylunio graffig, a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. Mae hi wrth ei bodd yn gweld prosiectau drwodd o'r dechrau i'r diwedd, gan ddangos sut mae creadigrwydd yn chwarae rhan hanfodol yn y byd adeiladu. .



Rebecca Hollins – Rheolwr Swyddfa a Rheolwr Dogfennau yn Borley Engineering Services

Mae Rebecca yn sicrhau bod swyddfeydd yn rhedeg yn llyfn, yn rheoli sefydlu ar safleoedd, ac yn gwirio lluniadau ar gyfer cydymffurfio. Aeth i'r diwydiant yn hwyrach yn ei gyrfa, ac mae hi bellach yn ffynnu ac yn annog menywod i ddilyn eu hangerdd heb oedi.

Mae eu straeon yn profi nad oes terfyn i'r hyn y gall menywod ei gyflawni yn y maes adeiladu, a byddwn yn rhannu mwy o esiamplau gydol yr wythnos, felly gwylwch y gofod!

Os hoffech hyrwyddo Menywod mewn Adeiladu ar draws eich contract Ardal yn y cylchlythyr nesaf, anfonwch e-bost at cwb@caerdydd.gov.uk.

Llunio Fy Stryd

Mae wedi bod yn ychydig o ddyddiau prysur yn cyflwyno gweithdy 1 Prosiect Llunio Fy Stryd Addewid Caerdydd ac Ysgol Bensaerniaeth Cymru!

Fel rhan o'n Prosiect Ysgol Uwchradd Willows, rydym wedi partneru gyda Blwyddyn 3 yn Ysgolion Cynradd Stacey Road a Baden Powell sy'n ysgolion bwydo o fewn y clwstrwr.

Yn ystod y gweithdai, darganfu'r disgyblion sut beth yw bod yn Benseiri a Dylunwyr trwy ddylunio eu cartrefi i'r dyfodol a chreu cymdogaeth trwy

ddefnyddio eu creadigrwydd a'u dychymyg.
Ar ôl eu hadeiladu, roedd yn ddiddorol iawn dewis themâu allweddol yr oedd y disgyblion yn teimlo a oedd yn elfennau pwysig i'w cynnwys wrth ddylunio cymdogaeth... y prif un oedd mannau gwyrdd.

Edrychwn ymlaen at ddychwelyd ymhlen ychydig wythnosau i gyflwyno gweithdy 2 a fydd yn gweld y disgyblion yn Llunio Eu Hysgol!



Prosiect Ysgol Goedwig



Fel rhan o'n Prosiect Adeiladau Newydd Ysgol Uwchradd Willows, rydym yn falch iawn o fod yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu Ysgol Goedwig yn Eglwys St German yn Adamsdown, a fydd unwaith y bydd wedi'i chwblhau, yn cael ei defnyddio gan ysgolion lleol yn yr ardal.

Heddiw fe ddechreuon ni ar y prosiect trwy glirio'r gofod a nodwyd ar gyfer y cynllun a oedd yn llawn gordyfiant ac nad yw wedi derbyn unrhyw sylw gofalus ers dros 5 mlynedd. Llawer o isdyfiant a gordyfiant y llwyddon ni i'w glirio gydag ychydig oriau o waith caled iawn (gyda chymorth coffi a toesenni).

Mae angen diwrnod arall o glirio cyn y gallwn weithio gyda'r ysgolion lleol i ddechrau cynllunio a siapia'r ardal hon yn fan y gallant ei ddefnyddio fel eu model ar gyfer darparu addysg awyr agored.

Da iawn a diolch i'r holl wirfoddolwyr o Morgan Sindall Construction a Curtins ac i BIRKEMP LIMITED am gyflenwi bagiau gwastraff.

#addysgawyraged
#TîmWillows
#Gwirfoddoli

Diwrnod y Llyfr 2025

I ddathlu Diwrnod y Llyfr ar draws y Byd, yn ddiweddar fe wnaethom gyflwyno ein Llyfr ein hunain 'The Story of Sitka the Spruce' i ysgolion clwstwr Willows yn hashnod #Caerdydd.

Mae'r llyfr yn adrodd stori Sitka y Sbrwsen, wrth iddo wneud y daith o'r goedwig i'r ystafell ddosbarth a thu hwnt, gan gyflwyno i ddysgwyr ifanc y wybodaeth fod pren yn darparu adnodd cadarnhaol ac adfywiol i'r blaned. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Tales from Mother Earth, sy'n ysgrifennu ac yn darlunio straeon addysgiadol i blant ifanc, gan

eu galluogi i ddarganfod mwy am gadwraeth cynefinoedd, bioamrywiaeth a'r pethau y gallant eu gwneud i weithredu ar newid yn yr hinsawdd.

Derbyniodd pob ysgol sawl copi o'r llyfr a fydd yn cael ei ddefnyddio yn unol â'u cwricwlwm ond hefyd yn helpu i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf, boed hynny i fo dyn angerddol dros yr amgylchedd, newid yn yr hinsawdd neu hyd yn oed yrfa mewn adeiladu (ynghyd â gwneud ychwanegiad braf i'w llyfrgelloedd ysgol)!



Ymweliad Zen Den ag ysgol Grangetown

Ymwelodd bws Llesiant Zen Den ag Ysgol Gynradd Grangetown ar gyfer Wythnos Iechyd Meddwl Plant.

Mae mwy o angen wedi bod i gynnig cymorth, cynghorion a thechnegau er mwyn helpu i wella iechyd meddwl a lles sef nod y Prosiect Zen.

Er mwyn cefnogi Wythnos Iechyd Meddwl Plant yn 2025, noddodd Grŵp Wates Fws Zen y Zen Project.

Cafodd y bws ysgol eiconig Americanaidd ei dynnu allan o'i ymddeoliad a'i gludo i'r DU i'w drawsnewid yn hafan o dawelwch.

Cymerodd y disgyblion ran mewn sesiynau a oedd yn cynnwys technegau delweddu dan arweiniad, gwaith anadlu, ac iachâd sain.

Mae'r gweithgareddau hyn yn ardderchog wrth reoli gorbryder ac yn hyrwyddo ymlacio ac yn lleddfu straeon.



Mwynhaodd y plant eu hymweliad â'r Bws Zen yn fawr. Cymerodd y plant ran mewn ymarferion ymwybyddiaeth ofalgar, anadlu a gwrando ar rai offerynnau tawelu.

Roedd Michael a Laura yn gyfeillgar iawn, yn gwrando ar syniadau'r plant ac yn galluogi'r plant i fwynhau eu profiad ar y Bws Zen yn llawn.

Diolch, gobeithiwn y byddwch chi'n dychwelyd i Ysgol Gynradd Grangetown eto yn fuan.



Hannah Whittle, athrawes Blwyddyn 5





Papyrus yw partner elusennol Wates ac mae'n bodoli i leihau nifer y bobl ifanc sy'n lladd eu hunain trwy chwalu'r stigma ynghylch hunanladdiad a rhoi'r sgiliau i bobl ifanc a'u cymunedau i adnabod ac ymateb i ymddygiad hunanladdol.

Mae Hyfforddiant Sgiliau Ymyrraeth Hunanladdiad Cymhwysol (ASIST) yn weithdy adeiladu sgiliau deuddydd, sy'n paratoi cyfranogwyr i leihau'r risg ar y pryd o hunanladdiad a chynyddu'r cymorth i berson sydd mewn perygl.

Roedd Wates yn falch o ariannu hyfforddiant ASIST ar gyfer 24 o unigolion sy'n byw ac yn gweithio yng nghymuned Trem y Môr a Grangetown. Hoffem roi DIOLCH ENFAWR i Bafiliwn y Grange am gynnllyg lleoliad i'r hyfforddiant hwn.

Astudiaeth Achos Hyfforddiant Atal Hunanladdiad i'r Gymuned 2025, Trem y Môr.



Roedd yr hyfforddwyr wedi'u trefnu'n dda, yn wybodus ac yn brofiadol yn y pwnc, ac roeddent yn gallu darparu amgylchedd cyfforddus i bobl siarad am bethau a dysgu oddi wrth ei gilydd.

Gadawais yr hyfforddiant yn teimlomod i wedi magu sgiliau ac yn barod i ddod â'r sgiliau a ddysgwyd i mewn i'm bywyd proffesiynol a phersonol. Diolch eto.



Anthony Chubb, Cyngor Caerdydd

Cefnogi Grŵp Glanhau Llaneirwg

Ym mis Chwefror 2025, rhoddodd datblygiad Prosiect Byw yn y Gymuned Llaneirwg yng Nghaerdydd £349.37 i Grŵp Glanhau Llaneirwg, gan eu helpu i barhau â'u gwaith hanfodol i gadw'r gymuned yn lân ac yn ddiogel. Mae'r cyllid hwn wedi'i ddefnyddio i brynu offer hanfodol, gan gynnwys:

- **Laminydd a chodenni – ar gyfer creu deunyddiau hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau cymunedol**
- **Berfa gwaith trwm – i gludo gwastraff a gasglwyd yn effeithlon**



Ym mis Mawrth 2025, prynodd datblygiad Prosiect Byw Cymunedol Llaneirwg yng Nghaerdydd beiriant golchi llestri Beko newydd sbon ar gyfer Ysgol Gynradd Oakfield. Cefnogodd y rhodd hon yr ysgol trwy wella ei chyfleusterau cegin, gan ganiatáu i staff baratoi prydau bwyd yn effeithlon a chynnal glendid, sy'n hanfodol i ddarparu amgylchedd iach i fyfyrwyr. Cost y rhodd hon oedd £300.

- **Menig – sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael amddiffyniad priodol wrth lanhau**
- **Brwsh ysgubo trwm – ar gyfer clirio malurion o lwybrau**
- **Rhaw fawr – i helpu i gael gwared ar eitemau gwastraff mwy**
- **Padell llwch a brwsh – ar gyfer tasgau glanhau llai**
- **Chwythwr dail wedi'i bweru gan fatri – i glirio dail a malurion yn gyflym**
- **Argraffydd ac inc – i gefnogi cynllunio digwyddiadau ac ymgysylltu â'r gymuned**

Cymorth ariannol ar gyfer Celfyddydau Theatr Arloesol C.I.C

Ym mis Chwefror 2025, cyfranodd datblygiad Prosiect Byw yn y Gymuned Llaneirwg rodd o £2,083.04 i Breakthrough Theatre Arts C.I.C, sefydliad nid-er-elw sy'n ymroddedig i gynnal hyfforddiant perfformio fforddiadwy ac o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc yn Nwyrain Caerdydd a thu hwnt.

Roedd y cyllid hwn yn hanfodol i gefnogi cenhadaeth y sefydliad, gan eu galluogi i barhau i ddarparu cyfleoedd hygyrch i berfformwyr ifanc tra'n meithrin creadigrwydd, hyder ac ymgysylltu â'r gymuned. Helpodd y rhodd i dalu costau hanfodol, gan sicrhau y gallai mwy o blant a phobl ifanc elwa o hyfforddiant proffesiynol yn y celfyddydau perfformio.

LOVELL





Pwll tywod newydd Ysgol Gynradd y Tyllgoed

Gyda haul yr haf ar y gorwel, roedd tîm Kier eisiau creu blwch tywod newydd i ddisgyblion Ysgol Gynradd y Tyllgoed ei fwynhau. Ymgwymerodd Goruchwyliwr y Safle, Ional, â'r dasg gyda dyluniad pwrpasol i gyd-fynd â'r ardal.

Roedd tîm yr ysgol wrth eu bodd gyda'r canlyniad terfynol. Rydym yn gobeithio y bydd disgyblion yn cael amser gwych yn gyrru eu JCB's bach trwy eu pwll tywod newydd!

Mae tîm Tyllgoed Ysgol y Court wedi partneru â'u cymdogion FareShare, i ledaenu rhywfaint o hud ychwanegol y gwanwyn i gymunedau.

Roedd y tîm eisiau helpu eu cymuned leol i ddathlu diwrnod crempog trwy roi cymysgedd crempogau, a chynhwysion i'r rhai oedd am ei baratoi o'r dechrau, gan gynnwys llenwad aeron (blasus!) ar gyfer pob bocs bwyd sy'n mynd allan i'r gymuned!

Rhoddodd y tîm flodau hefyd i'w rhoi ym mhob bocs, a blodyn cennin Pedr mewn pryd ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi.



Os ydych chi'n gweithio ar brosiectau yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg, Sir Fynwy a Thorfaen ac angen cymorth, cysylltwch â ni.



Rwy'n eich Cyflogi! Llwyddiant Cyflogaeth Partneriaeth ag Academi Adeiladu Ar y Safle

Mae Kier construction wrth eu bodd yn partneru ag Academi Adeiladu Ar y Safle Caerdydd (AAS) i gefnogi eu dysgwyr i gael cyflogaeth ar ein safleoedd Kier yng Nghaerdydd. Mae ein recriwt AAS diweddaraf, Jay, wedi bod yn gaffaeliad go iawn i Dîm Llanrhymni gan ymuno fel labrwr. Fe wnaethon ni ddal i fyny â Jay i ofyn iddo am daith ei yrfa. Roedd Jay yn ddi-waith ac fe'i llofnodwyd i'r AAS yn gynharach eleni.

Fel rhywun a oedd yn mwynhau gweithio yn yr awyr agored, ar ôl gwneud tirlunio, labro a gwaith adeiladu arall, roedd Jay yn gwybod mai adeiladu oedd y cyfeiriad iddo ef. 'Roedd y tîm AAS yn ddefnyddiol iawn, roeddwn gyda nhw am tua 3 wythnos cyn cymryd fy mhrawf CSCS yna darganfod fy mod wedi bod yn llwyddiannus yn cael swydd yn Kier'. 'Doeddwn i erioed wedi bod ar safle o'r blaen ond ers bod gyda Kier, rydw i wedi mwynhau'r amrywiaeth o dasgau a chwrdd â chymaint o bobl newydd. Mae wedi agor fy llygaid i hyd yn oed mwy o gyfleoedd gyrfa sydd o fewn fy nghyrraedd'.

Roedd gan Jay ddiddordeb mewn gosod brics i ddechrau, a bydd yn cael ei roi ar gylchdro wrth weithio i ni er mwyn ennill profiad gyda'r grefft. 'Mae fy hyder wedi tyfu cymaint ers bod yn rhan o'r tîm, rydw i bellach wedi fy ysgogi i ennill fy nhrwydded yrru ac o bosibl ennill fy nhrwydded HGV, rwy'n gyffrous am y dyfodol!'

'Unwaith y bydd eich troed yn y drws gydag adeiladu, mae'r cyfleoedd yn ddiddiwedd'. Mae Rheolwr y Safle, Stuart Jones wedi cael ei syfrdanu gan frwdfrydedd ac agwedd gadarnhaol Jay 'Unwaith y bydd Jay wedi gorffen tasg, mae'n ôl yn y swyddfa yn gofyn beth all ei wneud nesaf, mae'n weithiwr caled dros ben'.

Rydym wrth ein bodd yn cael Jay fel rhan o'r tîm ac edrychwn ymlaen at groesawu mwy o recriwtiaid o'r AAS wrth i'r prosiect barhau.

Adeilad Meithrin Newydd, Ysgol Gynradd Trellech




Cyflwynodd Speller Metcalfe rodd tuag at lyfrau i'r llyfrgell ysgol gyda ffocws ar ddeunydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC).

Roedd yr ysgol a'r tîm safle yn cwrdd yn rheolaidd ac yn trafod llyfrgell yr ysgol. Soniwyd y byddai llyfrau ar CAC yn ddefnyddiol yn y llyfrgell.

Roedd angen arian ar yr ysgol i allu prynu'r llyfrau roedden nhw eisiau ar gyfer y llyfrgell, a fyddai'n cefnogi pob disgybl yn yr ysgol.

Fe wnaethon ni roi £250 er mwyn iddynt allu prynu'r hyn yr oedd ei angen arnynt. Fe wnaethom nodi'r rhodd hon gyda chyflwyno sic i'r ysgol.

Mae'r ysgol bellach yn gallu fforddio prynu'r llyfrau i'r disgyblion, gan helpu i ehangu eu gwybodaeth am CAC a'i bwysigrwydd.



BESL ac Isgontractwyr yn adeiladu sied feics i ysgol leol

Fel rhan o'n mentrau Gwerth Cymdeithasol ar gyfer Campws Cymunedol y Tyllgoed, fe wnaethom gydweithio yn ddiweddar ag Ysgol Arbennig Greenhill i adeiladu sied feics newydd sbon. Roedd Greenhill wedi cysylltu â ni o'r blaen i weld a allwn gefnogi eu disgyblion gyda chyfleoedd gyrfa yn y dyfodol, ond yn hytrach na'u gwahodd i'r safle, fe wnaethom benderfynu gwneud rhywbeth gwahanol a'u helpu gyda phrosiect yr oeddent yn edrych i'w gwblhau.

Cymerodd y prosiect sawl wythnos i'w gwblhau, gan orfod dechrau trwy ymweld â'r ysgol i siarad â'r disgyblion am yr hyn yr oeddent ei eisiau, beth oedd ei angen arnynt a beth fyddai'n loches beics delfrydol (cafodd teledu a thybiau ymdrochi eu crybwyll!) Fe wnaethon ni fynd â nhw allan i fesur yr ardal, dysgu iddynt sut i ddefnyddio tâp mesur, pa fesuriadau y dylid eu cymryd a ble fyddai'n fwyaf addas i'w adeiladu.

Yna fe wnaethom ddefnyddio'r mesuriadau a sefydlu pa faint fyddai ei angen arnom ar gyfer y sied, pa fath o do a ble i osod y stondinau beiciau a'r socedi trydan. Gwnaeth pob un o'r disgyblion luniau a ddefnyddiwyd wedyn gan BESL, Ian Williams Carpentry a Central Cladding i ddylunio lloches feics a allai ddal beiciau pob disgybl ac a fyddai'n para er mwyn cynnig lloches i feics disgyblion y dyfodol. Yn bwysicaf oll, fodd bynnag, ein nod oedd addysgu'r myfyrwyr sut i gydweithio â gwahanol grefftau ac i fagu sgiliau newydd ar hyd y daith.

Ar ôl cwblhau'r dyluniad a'r cynllunio, mynychodd BESL, IWC, Central Cladding ac Evans Electrical yr ysgol i wneud y gwaith. Roedd y profiad hwn yn

golygu bod y disgyblion wedi dysgu sgiliau bywyd gwerthfawr a chael cip ar y gwahanol grefftau sydd ar safleoedd adeiladu. Er bod rhai yn sylweddoli nad oeddent yn hoff o weithio y tu allan, neu fod ganddynt ofn uchder, roedd eraill yn frwdfrydig am y gwaith adeiladu cyfan, ac yn gofyn cwestiynau ar sut i ddechrau yn y diwydiant, a hyd yn oed yn gofyn am brofiad gwaith yn y dyfodol.



Os ydych chi'n gweithio ar brosiectau yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg, Sir Fynwy a Thorfaen.

Os ydych chi'n gweithio ar brosiectau ar draws Torfaen ac angen cymorth, cysylltwch â ni.



Rhodd CMB Sparkle

Yn Nigwyddiad Pen-blwydd Maes Chwaraeon De Cymru yn 60 oed yn Stadiwm Dinas Caerdydd, fe wnaethom gwrdd â'r bobl anhygoel yn Apêl Sparkle ac roedd ein Rheolwr Gyfarwyddwr, Steve Borley, wedi synnu cymaint gan yr elusen a'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu, gofynnodd am gael rhoi £5,000 i ddangos cefnogaeth CMB i'r hyn maen nhw'n ei wneud.

Mae Sparkle yn cynnig ystod eang o wasanaethau anhygoel gan gynnwys gweithgareddau hamdden arbenigol, rhedeg clybiau ieuenctid, sesiynau nofio, gweithgareddau chwarae wedi'u teilwra i anghenion unigol y plant, dangosiadau sinema unigryw, sesiynau nofio i'r teulu a digwyddiadau i'r teulu. Bydd y rhodd hefyd yn helpu i ddarparu cefnogaeth i deuluoedd, gan sicrhau bod rhieni, gofawyr a brodyr a chwiorydd yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys, eu cefnogi a'u grymuso.

"Ar ran pawb yn Sparkle, rwyf am estyn ein diolch dwysaf o waelod calon i CMB am eich rhodd hael. Mae clywed am eich haelioni wrth gynnig ar eitemau occsiwn ac yna gwneud y penderfyniad anhygoel i gynyddu eich rhodd i £5,000 wir wedi gwneud argraff arnom – mae'n siarad cyfrolau am eich caredigrwydd a'ch ymrwymiad i wneud gwahaniaeth ystyrlon." Rebecca McDonald, Pennaeth Gweithrediadau Sparkle

Rydym yn argymhell yn gryf i unrhyw un nad yw wedi clywed am Sparkle o'r blaen i edrych ar eu fideo trwy'r ddolen isod. Maen nhw wir yn gwneud gwaith rhyfeddol!
<https://www.sparkleappeal.org/>

Mae WSP Roads Caerdydd wedi bod yn gweithio gyda Phrifysgol De Cymru (PDC), i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Modiwl Priffyrdd a Thrafnidiaeth ar y cwrs Peirianeg Sifil. Dechreuodd WSP drafodaeth gyda PDC i gefnogi'r modiwl hwn, i sicrhau ei fod yn gynrychioliadol o'r gofynion a'r tueddiadau cyfredol yn y diwydiant. Mae'r drafodaeth hon wedi arwain at ddiwygio'r briff aseiniad i ymgorffori ystyriaethau teithio llesol, sy'n cyfateb i oddeutu 20% o gyfanswm yr aseiniad.

Darparodd WSP Roads Caerdydd ddarlith wadd ysgwydd wrth ysgwydd â Thrafnidiaeth Cymru (TC) i 59 o fyfyrwyr ar y 14eg o Dachwedd 2024, i gefnogi'r modiwl hwn a'r newid i'r aseiniad a chyflwyno agweddau ar bwysigrwydd a gofynion teithio llesol, y polisiau a'r rheoliadau sydd mewn grym ar gyfer

teithio llesol a'r arferion gorau ar gyfer dylunio teithio llesol. Arweiniodd WSP 2 awr gyntaf y ddarlith a oedd yn ymdrin â'r cefndir polisi a deddfwriaeth ar gyfer yr angen am deithio llesol a sut mae dull Cymru yn wahanol i ranbarthau eraill y DU a'r casglu data a'r archwiliadau angenrheidiol i gwblhau llwybr teithio llesol digonol. Arweiniodd TC awr olaf y ddarlith trwy arddangos elfennau dylunio amrywiol llwybr teithio llesol gan gynnwys opsiynau ar gyfer llwybrau a chroesfannau.

Mae WSP a TC wedi derbyn adborth cadarnhaol wrth gwblhau'r digwyddiad hwn ac mae Prifysgol De Cymru wedi gwahodd WSP i gyflwyno'r elfen hon yn flynyddol ac wedi gofyn am gymorth pellach mewn modiwlau eraill.



Cyfleoedd Adeiladu gyda Disgyblion yr UCD

Roedd y Prosiect yn cynnwys estyniad adnewyddu'r adeilad presennol 'Mounton House', i greu cyfleuster addysg newydd ar gyfer myfyrwyr yr UCD. Mae Willis wedi gweithio gyda'r tîm yng Nghyngor Sir Fynwy a staff yr ysgol i ddarparu cyfleoedd, profiadau ac adnoddau i'r disgyblion sy'n symud i'r cyfleuster newydd.

Yn dilyn ein sesiwn gyflwyno gychwynnol yn eu cyfleuster presennol, fe wnaethom greu cyfres o ymweliadau safle i'r disgyblion. Ar eu hymweliad cyntaf, cymerodd y grŵp ran mewn Sefydlu ar y Safle gyda'r Rheolwr Safle, gan gynnwys pwysigrwydd gwisgo eu Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer tasgau. Fe wnaethom geisio caniatâd gan y Cleient i ddefnyddio gofod garej oedd heb ei ddefnyddio ar y tir i ddarparu rhai gweithgareddau ymarferol gyda'n Seiri er mwyn adeiladu meinciau gwaith a blychau plannu awyr agored i'w defnyddio yn yr ysgol pan

fyddant yn symud draw iddi.

Ar ôl sesiwn gwyntyllu syniadau i benderfynu pa offer yr oeddent am ei adeiladu, rhoddwyd sesiynau ymarfer a gwaith tîm i'r disgyblion, cyn mynd ati i adeiladu'r strwythurau pren eu hunain.

Adeiladodd y disgyblion feinciau gwaith ar gyfer eu gweithdy newydd, a blychau plannu ar gyfer mannau awyr agored fydd o fudd iddynt yn eu hysgol newydd. Yn nhymor yr haf, byddwn yn cynnal sesiynau dilynol i gynnwys, plannu ffrwythau a llysiau yn eu blychau plannu, troi'r hen ofod garej yn weithdy defnyddiol yn cynnwys y meinciau gwaith ac offer, deunyddiau ac arwyddion eraill. Mae sesiynau dilynol yn nhymor yr haf wedi eu harchebu sydd hefyd yn cynnwys y cyfle i gael Cardiau CSCS, sesiynau M&E ac unrhyw gyfarwyddyd ar gyfer gyrfaedd mewn adeiladu.

Ystadegau Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol 2024

Mae'r niferoedd diweddaraf ar gyfer dioddefwyr posibl Caethwasiaeth/Masnachu Pobl yn y DU ar gyfer 2024 wedi'u rhyddhau'n ddiweddar.

Prif ganfyddiadau:

- Atgyfeiriwyd cyfanswm o 19,125 o ddioddefwyr posibl, cynnydd o 13% o'i gymharu â 2023 (16,990), a'r nifer uchaf o atgyfeiriadau ar gofnod.
- Y tair ar y brig o ran atgyfeirio oedd: DU – 23% Albania – 13% Fietnam – 11%
- Roedd 41% o gyfanswm yr atgyfeiriadau ar gyfer ecsbloetio llafur – y math mwyaf cyffredin o gaethwasiaeth fodern.
- Roedd 31% o'r holl atgyfeiriadau yn ymwneud â phlant (dan 18).
- Gwnaed 563 o atgyfeiriadau yng Nghymru.



Mae caethwasiaeth fodern yn y sector gofal ar gynnydd

"Mae pobl agored i niwed yn derbyn gofal gan bobl sy'n agored iawn i niwed iawn."

Yn 2023, nodwyd cyfanswm o 918 o ddioddefwyr posibl. Mae hynny'n gynnydd o 30% o'r 708 a welwyd yn 2021, ac mae hyn yn dilyn cynnydd syfrdanol o 1,024% yn 2022 o'i gymharu â 2021!

Mae asiantaethau recriwtio wedi neidio ar y problem tanstaffio, gan weithredu asiantaethau ffug a thwyllodrus i staffio cartrefi gofal.

Mae'r gweithwyr hyn yn aml gyda'r lleiafswm o hyfforddiant, wedi'u gorfodi i wneud oriau hir mewn amodau gwael, yn gofalu am ein hanwyliaid heb fawr o dâl.

Rydym wedi cynnal cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i liniaru'r risg.

Mae caethwasiaeth fodern yn effeithio ar lawer o sectorau, gan gynnwys adeiladu, golchi ceir, a gofal.

WILLIS
CONSTRUCTION

Official Statistics

Modern slavery: National Referral Mechanism and Duty to Notify statistics UK, end of year summary 2024

Published 6 March 2025

TACKLING EXPLOITATION & SUPPLY CHAIN TRANSPARENCY
MODERN SLAVERY
STATEMENT

Financial Year: 1 April 2025 to 31 March 2026




Say **NO** to Slavery

Os oes angen cymorth arnoch gyda'r uchod, cysylltwch â jeffrey.norman@cardiff.gov.uk



DIWRNOD GYRFAOEDD

Ymunodd CMB â'r OCA gyda chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ac yna llwybrau i ymgeiswyr, mynychodd Blue Water fel asiantaeth gyflogwyr a chefnogwyd ymgeiswyr i fynychu. Cyfle gwyh i ymgeiswyr gwrdd â chyflogwr a gweithwyr sy'n gweithio ar safle CMB. Roedd ymgeiswyr yn gallu cwrdd â gwahanol grefftwyr a chyfle i drafod pa rolau oedd ar gael, pa hyfforddiant roedd y rhain wedi ei gwblhau i fod yn eu rôl ynghyd â'r cyfleoedd sydd ar gael.



Mae Academi Adeiladu ar y Safle (AAS) De-ddwyrain Cymru yn rhaglen hyfforddi, profiad a chyflogaeth ar gyfer gyrfaedd yn y diwydiant adeiladu. Wedi'i ariannu gan y CITB a'i ddarparu gan y Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith, mae'r AAS yn rhoi cymorth i contractwyr a cheiswyr gwaith (newydd-ddyfodiaid, dychwelwyr a newidwyr gyrfa) o bob oed ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan baratoi ceiswyr gwaith ar gyfer gwaith yn y sector trwy brofiadau ar safleoedd a hyfforddiant wedi'i ariannu.

Mae ein hymgeiswyr yn cynrychioli rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig ac sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys y di-waith, yr economaidd anweithgar, y di-waith hirdymor, pobl ifanc nad ydynt mewn addysg/cyflogaeth/hyfforddiant, pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, pobl dros 50 oed, cyn-droseddwy, pobl Ddu a lleiafrifoedd ethnig, a menywod.

Rydym yn brofiadol yn gweithio gyda chwmnïau haen 1, contractwyr, cadwyni cyflenwi ac asiantaethau recriwtio, gan gyflenwi ymgeiswyr dibynadwy ac ymroddedig i helpu i gyflawni targedau Buddion Lles Cymunedol ynghylch cyflogaeth a sgiliau ac rydym bob amser yn chwilio am gyfleoedd profiad gwaith a chyflogaeth i'n hymgeiswyr.



Os oes angen cymorth arnoch gyda'r uchod, cysylltwch â claire.rowlands@caerdydd.gov.uk

Prosiect Adeiladu a Pheirianeg Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd

Fel rhan o'u targedau gwerth cymdeithasol a lles cymunedol, mae sawl sefydliad yn y maes adeiladu wedi ymuno ag Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd i ddarparu cyfleoedd dysgu pwrpasol ar y safle ac oddi ar y campws i fyfyrwyr adeiladu a pheirianeg blwyddyn 10.

Y mis hwn fe ddysgodd myfyrwyr sut i adeiladu llety myfyrwyr, a phrofi am asbestos mewn ardaloedd asbestos arbenigol gyda Shield Services. Yn ogystal, aeth Ian Williams Limited â'r myfyrwyr trwy eu pethau gan ddysgu sgiliau arolygu meintiau wrth fesur eu prif swyddfeydd, gan ddatblygu eu dealltwriaeth o sgiliau STEM trosglwyddadwy o'r ystafell ddosbarth i'r diwydiant.



Prosiect Sgiliau Adeiladu Nyth Y Deryn

Fel rhan o'u targedau gwerth cymdeithasol a lles cymunedol, mae sawl sefydliad yn y maes adeiladu wedi ymuno ag ysgol Nyth y Deryn gan ddarparu cyfleoedd dysgu pwrpasol ar y safle ac oddi ar y campws i fyfyrwyr blwyddyn 9.

Mae myfyrwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o brosesau cynllunio a chwblhau gwaith adeiladu ar adeiladu lleol, a'r holl sgiliau sydd eu hangen sy'n cefnogi'r prosiectau hyn. Mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn cael eu trosglwyddo i brosiect adeiladu go iawn yn eu hysgol, sef creu cwrs ystwythder i gŵn ar gyfer eu ci therapi, Oreo.

